**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cyngor y Dyfodol a Thrawsnewid

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2019 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P B Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| L S Gibbard | J A Hale | T J Hennegan |
| E T Kirchner | M B Lewis | S Pritchard |
| A H Stevens | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lisa Banks | Swyddog Cynllunio - Anableddau Dysgu |
| Sally-Ann Evans | Uwch-gyfreithiwr |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L J Tyler-Lloyd

---

**23 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**24 Cofnodion:**

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 25 Medi a 27 Tachwedd 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**25 Cydgynhyrchu. (Drafodaeth)**

Rhoddodd Lisa Banks, Swyddog Cyllunio - Anableddau Dysgu, gyflwyniad ar 'Gydgynhyrchu - Gweithio gyda'n Gilydd' a oedd yn cynnwys: -

- Ysgogwyr 'o'r pen i'r gwaelod' - gweledigaeth a rennir
- Safbwynt cenedlaethol
- Tybiaethau
- O ymgynghori i gydgynhyrchu - "cam i fyny"
- 6 egwyddor cydgynhyrchu
- Beth yw ystyr cydgynhyrchu?

- Model cynnwys Alain Thomas
- Cymhelliant
- Gallu
- Astudiaethau Achos: - Cysylltu Cymunedau - Falmouth
  Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (ACE)
  Rhwydwaith Defnyddwyr Gwasanaeth S.U.N
  Fesul Teulu
- Cydgynhyrchu yn ymarferol

Dangoswyd fideo cyn y cyflwyniad ar ystyr cydgynhyrchu.

Gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddog Cyflwyno a ymatebodd yn briodol. Roedd cwestiynau a thrafodaethau'n canolbwyntio ar: -

- Ddatblygiad a chynnydd strategaeth cydgynhyrchu ar gyfer y cyngor
- Y gwahaniaeth rhwng cydweithio a chydgynhyrchu - rhaid i gydgynhyrchu fodloni'r 6 egwyddor a nodwyd
- Mae cydgynhyrchu'n dechrau o gychwyn cyntaf y broses
- Mynd i'r afael â materion cydbwysedd pŵer a bygythion a all fod yn amlwg gyda chydgynhyrchu - sicrhau na ddefnyddir jargon
- Byddai angen newid diwylliannol i hwyluso cydgynhyrchu'n llawn - newid sut trefnir cyfarfodydd, sut llunnir agendâu etc.
- Roedd ambell destun dryswch ac anghysondeb wrth fynd ati i gydgynhrychu - lle dywedwyd bod gwaith wedi'i gydgynhyrchu ond nid cydgynhyrchu gwirioneddol oedd hyn.
- Roedd cydgynhyrchu fel arfer yn cyfeirio at gyrff cyhoeddus a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau maent yn eu darparu.
- Roedd angen eglurder o ran gwneud penderfyniadau wrth gydgynhyrchu - a allai adroddiadau/polisïau a gydgynhyrchwyd gael eu newid/gwahardd gan benderfynwyr?
- Gofynnwyd am dystiolaeth i ddangos manteision ac effaith cydgynhyrchu yn ogystal ag unrhyw wersi a ddysgwyd
- Rhwydwaith Cydgynhyrchu Abertawe - helpodd hwn i nodi rhwydweithiau ar gyfer cydgynhyrchu
- Rheolaeth - cam i fyny o gydgynhyrchu lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn gyfrifol am gynnal gwasanaeth
- Astudiaethau achos - cywirdeb y canlyniadau yr adroddwyd amdanynt
- Enghreifftiau lle defnyddiwyd cydgynhyrchu
- Effaith cydgynhyrchu ar adnoddau a chyllideb
- Prin yw'r enghreifftiau o ddefnyddio cydgynhyrchu mewn awdurdodau eraill - credir mai Abertawe ar hyn o bryd fyddai'r awdurdod cyntaf yng Nghymru i feddu ar strategaeth cydgynhyrchu

Diolchodd y pwyllgor i'r Swyddog Cynllunio - Anableddau Dysgu, am y cyflwyniad.

**Penderfynwyd** -

1) Y byddai'r Swyddog Strategaeth a Pholisi yn anfon copi o'r cyflwyniad a manylion/dolenni pellach i'r astudiaethau achos a amlygwyd yn y cyflwyniad; ac
2) Y trefnir gweithdy ar gydgynhyrchu

**26 Cynllun Gwaith 2018 - 2019.**

Trafododd y pwyllgor gynnydd cydgynhyrchu. Roedd yn ddarn mawr o waith ac awgrymwyd y dylid trefnu gweithdy ar gydgynhyrchu, o ddewis ym mis Chwefror os oedd hynny'n bosib.

O ran eitemau'r dyfodol, awgrymwyd y cysylltiad â'r rhyngrwyd yn Neuadd y Ddinas.

Anogwyd y pwyllgor hefyd i ystyried pa rai o feysydd cyfathrebu'r cyngor y dylid canolbwyntio arnynt.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.35 pm

**Cadeirydd**